



Grym y Gair – ar Bapur ac mewn Carreg

Taith car neu feic o amgylch ardal Betws y Coed

Hyd: Gyda char 2-3 awr / Gyda beic ½ diwrnod

Dechreuwch yn hen eglwys **Sant Mihangel (1)** ym Metws y Coed, hen eglwys heddychlon sy'n gartref i gerflun rhyfeddol o farchog a ymladdodd ym Mrwydr Poitiers yn 1356.

Gadewch y pentref ar yr hen ffordd yn ymyl siop Cotswold Rock Bottom i ddod allan ger Ffos Anoddun ar yr A470 a mynd i'r de. I feicwyr mae llwybr beicio y gallwch ei ddilyn wrth ochr yr A470 am 5-10 munud i osgoi defnyddio'r ffordd brysur hon. Dilynwch yr A470 i'r de ac wedyn troi i'r chwith i isffordd ger y bont, ac wedyn trowch i'r dde ar isffordd gan ddilyn arwyddion brown twristiaid i **Tŷ Mawr Wybrnant (2)**. Yma oedd man geni'r Esgob William Morgan, a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg.


Ewch ymlaen ar hyd yr isffordd ar y beic neu yn y car i gyrraedd Penmachno ble, y tu fewn i **Eglwys Sant Tudclud (3)** mae cerrig wedi eu harsgrifio, y cynharaf yn dyddio o'r 5ed i'r 6ed ganrif.

Gadewch ar hyd y B4406 i gyrraedd yr A5. Os ydych ar gefn beic, wedi i chi gyrraedd yr A5, ewch i fyny r allt gyferbyn ac felly'n osgoi'r ffordd A5 brysur. Os ydych yn gyrru, trowch i'r dde ar yr A5 a chymryd y tro cyntaf i'r chwith i Gapel Garmon. Mae **Siamr Gladdu Capel Garmon (4)**, beddrod Neolithig yn is i lawr llwybr troed i'r de o'r pentref.

Ewch ymlaen i dref marchnad **Llanrwst (5)** i groesi'r afon dros y bont hyfryd a gynlluniwyd yn ôl pob sôn gan Inigo Jones. Cariwch ymlaen i ffordd Betws y Coed ble mae tro i **Capel Gwydir (6)**.

Dychwelwch i'r ffordd a chymryd yr isffordd drwy Goedwig Gwydir sy'n cysylltu â'r A5 wrth y Tŷ Hyll. Mae Llwybr Mwyngloddio wedi ei arwyddo o faes parcio **Hafna (7)**.

O'r Tŷ Hyll cymerwch A5 Telford heibio Rhaeadr Ewynnol yn ôl i Betws y Coed



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014